



# Amaethyddiaeth Edexcel BTEC Lefel 2 Tystysgrif Estynedig–Drafft)

## Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei ddarparu gan Coleg Meirion-Dwyfor yng Nglynllifon.

## Beth fyddai'n ddysgu?

Gan ddibynnu ar yr unedau, bydd y cwrs hwn yn dy helpu i ddysgu:

- Sgiliau cefn gwlad ymarferol fel trin anifeiliaid fferm ac anifeiliaid bach, ffensio, codi waliau cerrig, gwaith coedlannau a weldio.
- Am astudiaethau amgylcheddol;
- Am sut i ofalu am anifeiliaid a phlanhigion;
- Am wahanol swyddi a'r math o lefydd y gallet ti weithio, a'r math o bethau y byddai'r swyddi hynny'n delio â nhw;
- Am sut i ddatblygu dy sgiliau a'r gwahanol swyddi, fel y gelli baratoi am dy swydd ddelfrydol yn y diwydiant cefn gwlad;

## Sut fyddai'n dysgu?

Byddi'n cael dy ddysgu gan ddarlithwyr adeiladwaith profiadol. Bydd 75% o'r cwrs yn cael ei ddysgu drwy weithgareddau ymarferol ar stad Glynllifon. Bydd y 25% arall yn cael ei ddysgu yn y dosbarth.

## Sut fyddai'n cael fy asesu?

Cei dy asesu'n barhaus drwy'r flwyddyn ar ddarnau bach o waith sgrifennu neu lafar ac asesiadau ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli fynd yn dy flaen i orffen Diploma Gyflwyno BTEC ar lefel 1 neu mynd yn dy flaen i astudio Diploma Gyntaf BTEC ar lefel 2. Neu mi allet ti wneud NVQ Lefel 1, 2 neu 3 mewn sector perthnasol. Ar ôl hynny, mi fyddi di'n barod i weithio mewn swydd addas o dan oruchwyiaeth, neu mi elli ddal ati i hyfforddi ar gynllun Prentisiaeth Fodern.

Ond, os nad wyt ti awydd dal ati gyda tir ac amgylchedd, mi allet ti ddewis cwrs arall addas, gan ddibynnu beth hoffet ti wneud nesaf. Bydd dy gynghorydd gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

## Syniadau am swyddi.

- Swyddog Cadwraeth
- Swyddog Amgylcheddol
- Gweithiwr Sgiliau Stadau
- Gweithiwr Coedwigaeth / Coedlannau
- Gweithiwr Amaethyddol
- Rheolaeth Bywyd Gwyllt

## Am fwy o wybodaeth?

I wybod mwy am y cwrs hwn, dos i'r wefan yma:

[http://www.edexcel.com/migrationdocuments/BTEC%20Introductory/225964\\_ICD\\_Land and Environment spec.pdf](http://www.edexcel.com/migrationdocuments/BTEC%20Introductory/225964_ICD_Land and Environment spec.pdf) neu cysyllta gyda: [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)

